# Ysgolion yr 21ain Ganrif
# Dogfen Ymgynghori 2015

## Darpariaeth uwchradd yng Ngorllewin Caerdydd

12 Chwefror 2015 – 25 Mawrth 2015



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille.
Gellir hefyd roi gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill yn ôl yr angen.
Er mwyn trefnu hyn, ffoniwch 029 2087 2720.

CARDIFF
CAERDYDD

# Tabl Cynnwys


| | | Page |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 2 |
| 2. | Esboniad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon | 2 |
| 3. | Sut allwch chi ddysgu mwy a rhannu eich barn? | 3 |
| 4. | Mae eich Barn yn Bwysig | 3 |
| 5. | Cefndir y cynnig | 4 |
| 6. | Y cynnig | 4 |
| 7. | Map dalgylch Ysgol Uwchradd Glyn Derw a Choleg Cymunedol Llanfihangel | 5 |
| 8. | Ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd | 6 |
| 9. | Pam ein bod yn cynnig y newidiadau? | 7 |
| | • Canlyniadau | 7 |
| | • Cyllideb | 7 |
| | • Capasiti Ysgolion, Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgolion | 8 |
| 10. | Sut y gwneir lle ar gyfer y disgyblion? | 8 |
| | • Rhestr o gyfleusterau yn yr ysgolion | 8 |
| 11. | Galw am leoedd yn y dyfodol | 9 |
| | • Bodloni'r galw tybiedig gan y boblogaeth | 9 |
| 12. | Beth fyddai'r effaith ar ysgolion? | 9-10 |
| 13. | Beth fyddai'r effaith ar wasanaethau eraill? | 11 |
| 14. | Beth fyddai'r effaith ar ddarpariaeth AAA? | 11 |
| 15. | Ansawdd a Safonau | 12 |
| | • Estyn | 12 |
| | • Awdurdod Lleol a Chonsortiwm Canol De Cymru | 12 |
| 16. | Beth yw manteision addysgol y cynigion hyn? | 14 |
| 17. | Anfanteision posibl y cynigion hyn | 15 |
| 18. | Risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynigion hyn | 15 |
| 19. | Dewisiadau amgen a ystyriwyd | 16 |
| | • Dim newidiadau i adeiladau ysgol na dalgylchoedd | 16 |
| | • Symud y ddwy ysgol i safle Coleg Cymunedol Llanfihangel - byddant yn aros yn ysgolion Ffederal | 17 |
| | • Symud y ddwy ysgol i safle Ysgol Uwchradd Glyn Derw - byddant yn aros yn ysgolion Ffederal | 18 |
| 20. | Trefniadau derbyn a dalgylchoedd | 19 |
| 21. | Materion Ariannol | 19 |
| 22. | Materion Adnoddau Dynol | 19 |
| 23. | Materion Trafnidiaeth | 19 |
| 24. | Trefniadau Teithio Dysgwyr | 20 |
| 25. | Effaith y cynnig ar y Gymraeg | 20 |
| 26. | Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | 20 |
| 27. | Materion Cynaliadwyedd | 20 |
| 28. | Ystyried Effaith ar y Gymuned | 20 |
| 29. | Dyddiadau Allweddol | 21 |
| | • Beth sy'n digwydd nesaf? | 21 |
| | • Beth yw'r prif ddyddiadau a gynigir ar gyfer yr ymgynghoriad a'r broses yn ei chyfanrwydd? | 21 |
| 30. | Cwestiynau Cyffredin | 22 |
| 31. | Ffurflen Ymateb i Ymgynghoria | 23-24 |

## Cyflwyniad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i bobl ddysgu am y cynnig o ran trefniadaeth ysgolion sydd wedi'i gyflwyno yn eich ardal.  Dyma'ch cyfle i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a gaiff eu hystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu ar y ffordd ymlaen.

Gofynnir am farn amrywiaeth o unigolion a grwpiau ar y cynnig.   Mae'r rheini y mae'r Cyngor yn ymgynghori â hwy fel rhan o'r broses yn cynnwys y canlynol:

- Plant a phobl ifanc
- Rhieni/gofalwyr
- Staff ysgolion
- Cyrff Llywodraethu Ysgolion
- Trigolion lleol
- Aelodau Etholedig (Cynghorwyr, ACau ac ASau lleol)
- Cyfarwyddwyr yr Eglwys yng Nghymru a'r Awdurdod Esgobaethol Catholig
- Awdurdodau lleol cyfagos
- Ysgolion eraill o fewn dwy filltir i'r ysgolion yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y cynigion
- Estyn
- Gweinidogion Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu
- Y Consortiwm Addysg Rhanbarthol
- Y Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol
- Comisiynydd y Gymraeg
- Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG)
- Undebau Llafur
- Canolfan Blant Trelái a Chaerau
- Coleg Caerdydd a'r Fro

## Esboniad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

**Defnyddir y termau canlynol drwy gydol y ddogfen hon:**

**'Nifer ar y gofrestr'** - nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol.
**'CYBLD'** - Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Ym mis Ionawr bob blwyddyn, cesglir gwybodaeth wedi'i dilysu gan ysgolion i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys nifer y disgyblion ar y gofrestr ym mhob ysgol, eu grwpiau oedran, eu cyfeiriadau cartref, eu hethnigrwydd, a data ar yr iaith Gymraeg, cymhwysedd am Brydau Ysgol Am Ddim, Anghenion Addysgol Arbennig ac iaith gyntaf.
**'AAA' -** Anghenion Addysgol Arbennig
**Gweithredu Gan yr Ysgol** - Pan fo athro dosbarth neu bwnc yn nodi bod gan ddisgybl AAA, bydd yn cynnig ymyriadau sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i'r rheini a ddarperir fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol.
**Gweithredu Gan yr Ysgol a Mwy** - Pan fo athro dosbarth neu bwnc a'r Cydlynydd AAA yn cael cyngor neu gymorth gan arbenigwyr allanol fel y gellir gweithredu ymyriadau ychwanegol amgen, neu sy'n wahanol i'r rheini a ddarperir i'r disgybl drwy Gweithredu Gan yr Ysgol.
**Datganiad** - Mae gan blentyn AAA os oes ganddo anawsterau dysgu a bod angen darpariaeth addysgol arbenigol arno. Mae anhawster dysgu'n golygu bod y plentyn yn ei chael hi'n anoddach o lawer na'r rhan fwyaf o blant eraill o'r un oedran wrth ddysgu, neu fod gan y plentyn anabledd sy'n golygu bod angen cyfleusterau addysgol gwahanol arno i'r rhai y mae'r ysgol fel arfer yn eu darparu ar gyfer plant.
**'PYADd'** - Prydau Ysgol Am Ddim
**Saesneg fel Iaith Ychwanegol**

## Sut allwch chi ddysgu mwy a rhannu eich barn?

Mae Cyfarfodydd Cyhoeddus a sesiynau galw heibio wedi'u trefnu lle caiff y cynigion eu hesbonio. Mae'r rhain yn gyfle i chi ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a gaiff eu cofnodi. Gallwch hefyd gyflwyno eich barn ar bapur.

Arddangosir gwybodaeth am y cynnig hwn yn Ysgol Uwchradd Glyn Derw, Coleg Cymunedol Llanfihangel, Canolfan Blant Trelái a Chaerau a Hyb Cymunedol Trelái a Chaerau.

Nodir manylion dyddiadau'r cyfarfodydd ymgynghori isod:

| Math yr Ymgynghoriad | Dyddiad/Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| Sesiwn galw heibio | Mercher 4 Mawrth 4:00 - 6:00pm | Canolfan Hamdden y Gorllewin |
| Cyfarfodydd staff | Iau 5 Mawrth 3:30pm | Coleg Cymunedol Llanfihangel |
| Cyfarfod Llywodraethwyr | Iau 5 Mawrth 5:00pm | Coleg Cymunedol Llanfihangel |
| Cyfarfod Cyhoeddus | Llun 9 Mawrth 6:30 - 8:30pm | Canolfan Hamdden y Gorllewin |
| Sesiwn galw heibio | Llun 16 Mawrth 12:30 - 2:30pm | Canolfan Blant Integredig Trelái a Chaerau |
| Sesiwn galw heibio | Gwener 20 Mawrth 10:00 - 12:00pm | Hyb Cymunedol Trelái a Chaerau |

Yn ogystal, caiff gweithdai eu trefnu gyda disgyblion o'r ddwy ysgol i roi cyfle iddynt ofyn cwestiynau, dysgu mwy am y cynnig a mynegi barn.

## Mae eich Barn yn Bwysig

Mae eich barn yn bwysig. Rydym am wybod eich barn ar y cynnig. Gallwch ddweud eich dweud drwy fynd i un o'r cyfarfodydd neu sesiynau galw heibio uchod a/neu drwy gwblhau Ffurflen Ymateb yr Ymgynghoriad sydd ar gael ar dudalen 23 o'r ddogfen hon, neu drwy gwblhau'r ffurflen ar-lein yn **www.caerdydd.gov.uk/YsgolionYr21ainGanrif**.

Fel arall cysylltwch â'r Tîm Cynllunio Trefniadaeth ysgolion ar **(029) 2087 2720**

Rhaid cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn **25 Mawrth 2015**.

## Cefndir y cynnig

Mae Ysgol Uwchradd Glyn Derw a Choleg Cymunedol Llanfihangel yn ysgolion uwchradd cymunedol cyfrwng Saesneg sy'n gwasanaethu Gorllewin y ddinas. Gwasanaethir ardal Treláí gan Goleg Cymunedol Llanfihangel a gwasanaethir ardal Caerau gan Ysgol Uwchradd Glyn Derw. Cafodd yr ysgolion eu ffedereiddio dan un Corff Llywodraethu a Phennaeth Gweithredol yn 2011 ond, gan fwyaf, maent wedi aros ar eu safleoedd eu hunain hyd yma. Yr eithriadau yw Blwyddyn 10 ac Ôl-16, sy'n cael eu haddysgu ar safle Coleg Cymunedol Llanfihangel.

Bydd y wybodaeth yn y ddogfen hon yn amlinellu'r cynnig i drosglwyddo Ysgol Uwchradd Glyn Derw i safle Coleg Cymunedol Llanfihangel o fis Ionawr 2016.

Byddai'r ysgolion yn parhau ar wahân, dan eu Ffederasiwn presennol, ond byddent yn rhannu llety, a chynigir dymchwel adeilad Ysgol Uwchradd Glyn Derw.

## Y cynnig

Ymateb i'r angen i resymoli lleoedd uwchradd yng Ngorllewin y ddinas i helpu i sicrhau'r canlyniadau addysgol gorau posibl drwy:

- Drosglwyddo Ysgol Uwchradd Glyn Derw i safle Coleg Cymunedol Llanfihangel o Ionawr 2016. Byddai'r sefydliadau'n aros ar wahân, dan eu Ffederasiwn presennol, ond byddent yn rhannu llety.

# Dalgylchoedd ysgolion




**Dalgylchoedd Ysgolion Uwchradd Cyfrwng Saesneg Presennol**

Ysgol Uwchradd Glyn Derw

Coleg Cymunedol Llanfihangel


Atgynhyrchwyd o fapiau'r Arolwg Ordnansgyda chaniatâd rheolwr Hawlfraint y Goron Llyfrfa Ei Mawrhydi.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniadneu achosion sifil.

Cynhyrchwyd y copi hwn yn benodoli gyflenwi gwybodaeth y Cyngor. Ni chaniateir cynhyrchu rhagor o gopïau.

**CYNGOR SIR CAERDYDD**
**Rhif Trwydded LA09005L**

# Ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd

Mae ardal Trelái a Chaerau yn cael ei gwasanaethu gan ddwy ysgol uwchradd gymunedol Saesneg: Ysgol Uwchradd Glyn Derw a Choleg Cymunedol Llanfihangel.

Mae'r ysgolion uwchradd canlynol hefyd yn gwasanaethu'r ardal:

- Yr ysgol uwchradd gymunedol Gymraeg sy'n gwasanaethu'r ardal yw Ysgol Plasmawr yn y Tyllgoed;
- Yr ysgolion uwchradd Gwirfoddol a Gynorthwyir cyfrwng Saesneg sy'n gwasanaethu'r ardal yw Ysgol Uwchradd Gatholig Mair Ddihalog yng Ngwenfô ac Ysgol Uwchradd yr Eglwys yn Nghymru Esgob Llandaf yn Llandaf.

Mae tair ysgol arbennig yn yr ardal – Ysgol Riverbank (4-11 oed), Ysgol Tŷ Gwyn (3-19 oed) ac Ysgol Uwchradd Woodlands (11-19 oed). Mae'r ysgolion hyn yn cynnig darpariaeth AAA arbenigol yn y Ddinas.

Mae'r ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Saesneg yn nalgylchoedd Ysgol Uwchradd Glyn Derw a Choleg Cymunedol Llanfihangel fel a ganlyn:

- Ysgol Gynradd Herbert Thompson
- Ysgol Gynradd Hywel Dda
- Ysgol Gynradd Millbank
- Ysgol Gynradd Pencaerau
- Ysgol Gynradd Trelái
- Ysgol Gynradd Windsor Clive

Yr ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Cymraeg sy'n gwasanaethu'r ardal yw:

- Ysgol Coed y Gof
- Ysgol Nant Caerau

Yr ysgolion cynradd Gwirfoddol a Gynorthwyir cyfrwng Saesneg sy'n gwasanaethu'r ardal yw:

- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Ffagan
- Ysgol Gynradd Gatholig Sant Ffransis

Mae canolfan blant integredig hefyd yn gwasanaethu'r ardal, sy'n cynnwys darpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg a gynhelir, ynghyd â gofal plant, chwarae mynediad agored a dosbarthiadau i rieni:

- Canolfan Blant Trelái a Chaerau

## Pam ein bod yn cynnig y newidiadau?

Un o'r blaenoriaethau addysgol allweddol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghaerdydd yw lefel dda o gyrhaeddiad addysgol. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i dorri'r cysylltiad rhwng anfantais a chyrhaeddiad addysgol. Mae o'r farn na ddylai cefndir person ifanc gyfyngu ar ei gyflawniadau ac y dylai pob plentyn gael addysg dda, waeth ble mae'n byw yn y ddinas.

Mae Ysgol Uwchradd Glyn Derw a Choleg Cymunedol Llanfihangel yn wynebu nifer o heriau ar hyn o bryd, gan gynnwys canlyniadau gwael, lleoedd gwag, diffygion cyllidebol sylweddol a llety is-safonol i ddisgyblion.

**Canlyniadau**

Cyflawnodd 27.3 % o ddisgyblion Ysgol Uwchradd Glyn Derw radd A-C yn eu TGAU ar gyfer 2013/2014, gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg. Cyflawnodd 25.4 % o ddisgyblion Coleg Cymunedol Llanfihangel radd A-C, gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg. Mae hyn yn is o lawer na chyfartaledd Caerdydd, sef 53.9 % , a'r cyfartaledd Cymraeg, sef 55.4 % .

Roedd y categorïau diweddaraf gan Uned Safonau Ysgol Llywodraeth Cymru yn cynnig data ar berfformiad yr ysgolion. Cymharwyd pob ysgol ag ysgolion tebyg yn genedlaethol. Creodd hyn sgôr cyffredinol a roddodd yr ysgolion mewn un o bum band. Band 1 oedd yr uchaf, a band 5 oedd yr isaf. Yn 2013 roedd Glyn Derw ym Mand 4 a Llanfihangel ym Mand 5.

Oherwydd y lefelau uchel o ran yr hawl i Brydau Ysgol Am Ddim (PYADd) yn Ysgol Uwchradd Glyn Derw a Choleg Cymunedol Llanfihangel, mae'r ddwy ysgol yn cael cyllid ychwanegol ar ffurf y Grant Amddifadedd Disgyblion, gyda'r bwriad o'u helpu i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Darperir y grant hwn gan Lywodraeth Cymru.

At hynny, mae'r ddwy ysgol yn rhan o fenter Her Cymru a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2014 i wella safon addysgu a dysgu. Fel rhan o'r rhaglen mae ysgolion yn cael adnoddau ac arbenigedd ychwanegol i gynnal rhaglen o welliant cyflym, parhaus.

Os bydd y ddwy ysgol yn aros ar eu safleoedd presennol, ni ellir manteisio'n llawn ar y rhaglenni hyn.

**Cyllideb**

Ariennir cyllidebau ysgol yn bennaf drwy ddull ariannu fformiwla sy'n defnyddio niferoedd disgyblion fel y prif ffactor. Byddai angen i unrhyw gynnydd neu leihad yn niferoedd ysgolion unigol gael eu hadlewyrchu yng nghyllideb refeniw'r ysgol.

Rhyngddynt, roedd gan y ddwy ysgol gyfanswm o 692 o leoedd gwag ym mis Medi 2013. Mae amcanestyniadau disgyblion yn dangos y bydd lefelau uchel o leoedd gwag yn parhau yn y ddwy ysgol. Mae'r lefel o leoedd gwag wedi cael effaith sylweddol ar y cyllid sydd ar gael i'r ddwy ysgol gan gyfrannu at ddiffyg refeniw cyfunol o tua £1m ar draws y ddwy ysgol.

Ym mis Medi 2014 roedd 89 o ddisgyblion Blwyddyn 10 ar y gofrestr yn Ysgol Uwchradd Glyn Derw (o gymharu â 183 o leoedd ar gael) a 110 ar y gofrestr yng Ngholeg Cymunedol Llanfihangel (o gymharu â 159 o leoedd ar gael); cyfanswm o 199 o ddisgyblion o gymharu â'r 342 o leoedd a oedd ar gael yn y ddwy ysgol.

Disgwylir i nifer y disgyblion ar y gofrestr ym Mlwyddyn 10 leihau gan 70 o ddisgyblion yn Ysgol Uwchradd Glyn Derw a 92 yng Ngholeg Cymunedol Llanfihangel yn 2015. Er mwyn goresgyn yr heriau i ddarparu darpariaeth Blwyddyn 10 ar y ddau safle a sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad i'r cwricwlwm TGAU cyfan, mae'r holl ddisgyblion Blwyddyn 10 wedi'u haddysgu ar safle Coleg Cymunedol Llanfihangel ers mis Medi 2014.

### Capasiti Ysgolion, Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgolion

Mae'r adran hon yn nodi capasiti, cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol, y galw presennol am leoedd uwchradd sy'n gwasanaethu ardal Treláí a Chaerau a'r nifer amcanestynedig o leoedd uwchradd.

Mae Tabl 1 isod yn rhoi manylion am gapasiti ysgolion a gwybodaeth am gyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol.

**Tabl 1: Cyflwr, addasrwydd a chapasiti ysgolion**

| Enw Ysgol | Math yr Ysgol | * Cyflwr Adeiladau'r Ysgol | * Addasrwydd Adeiladau'r Ysgol | Capasiti (11-18 oed) |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Glyn Derw | Cyfrwng Saesneg Cymunedol | Categori C - Gwael | Categori C - Gwael | 917 |
| Coleg Cymunedol Llanfihangel | Cyfrwng Saesneg Cymunedol | Categori B - Boddhaol | Categori B - Rhesymol | 983 |
| Ysgol Uwchradd Gatholig Mair Ddihalog | Cyfrwng Saesneg Gwirfoddol a Gynorthwyir | Categori B - Boddhaol | Categori A - Da | 795 |
| Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf | Cyfrwng Saesneg Gwirfoddol a Gynorthwyir | Categori B - Boddhaol | Categori B - Rhesymol | 1,085 |

*** Arolwg EC Harris – ymarfer cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn 2010.**

Mae cyflwr ffisegol safle Ysgol Uwchradd Glyn Derw yn wael. Er bod rhywfaint o waith atgyweirio hanfodol yn cael ei wneud i alluogi rhannau o'r ysgol i barhau i weithredu, byddai'n rhaid gwario lefelau anghymesur o arian i sicrhau bod yr ysgol gyfan yn bodloni safonau modern. Nid yw hwn yn amgylchedd sy'n galluogi addysgu o ansawdd, ac ystyrir ei fod yn cael effaith negyddol ar ddysgu a safonau.

Ystyrir bod rhywfaint o lety Coleg Cymunedol Llanfihangel yn foddhaol, er nad yw'n ategu'r gwaith o ddarparu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai ardaloedd.

Gellir gweld lleoliad yr ysgolion uchod ar y map ar dudalen 5.

## Sut y gwneir lle ar gyfer y disgyblion?

### Rhestr o gyfleusterau yn yr ysgolion

Byddai unrhyw addasiadau i safle Coleg Cymunedol Llanfihangel yn unol â chanllawiau'r Adran Addysg: Canllawiau ardal ar gyfer ysgolion prif ffrwd a Bwletin Adeiladu 103: Ebrill 2014 sy'n nodi bod angen i'r cyfleusterau canlynol gael eu cynnwys mewn unrhyw ysgol:

Ardal addysgu: mewnol ac allanol
Neuaddau, ardal fwyta
Ardaloedd adnoddau dysgu
Staff a gweinyddu
Storfeydd
Toiledau a gofal personol
Cyfleusterau cegin
System awyru, ystafell offer a waliau mewnol

Mae disgyblion Ôl 16 a Blwyddyn 10 wedi'u cyd-leoli ar safle Coleg Cymunedol Llanfihangel o fis Medi 2014, sy'n golygu bod angen:

- Dylunio Technoleg (DT) Arbenigol, gwaith buddsoddi mewn Gosodiadau ac Offer, gan gynnwys ad-drefnu gofod addysgu;
- Ehangu labordai Gwyddoniaeth i ddarparu'r cwricwlwm i gohort llawn CA4;
- Yn dilyn y buddsoddiad mewnol hanfodol mewn DT a Gwyddoniaeth, bydd effeithiau ar bynciau yn sgîl y gofyniad i ddefnyddio gwasanaethau, gan arwain at rywfaint o fân waith adnewyddu pellach.

Ar gyfer gweddill y disgyblion CA4 a'r rheini yn CA3 sydd yn Ysgol Uwchradd Glyn Derw ar hyn o bryd ond a gaiff eu cyd-leoli ar safle Coleg Cymunedol Llanfihangel, bydd angen y gwaith busddsoddi canlynol:

- Ad-drefnu llety'n fewnol i greu mwy o ystafelloedd dosbarth cyffredinol, a chynyddu capasiti'r adeiladau ysgol.

## Galw am leoedd yn y dyfodol

**Bodloni'r galw tybiedig gan y boblogaeth**

Er mwyn cyfrifo'r galw tebygol am leoedd ysgol, defnyddiwyd tueddiadau hanesyddol dalgylchoedd yr ysgol.

Mae'r tabl isod yn nodi'r data diweddaraf o ran y nifer ar y gofrestr a'r nifer amcanestynedig ar gyfer Ysgol Uwchradd Glyn Derw a Choleg Cymunedol Llanfihangel.

**Tabl 2: Data diweddaraf o ran y nifer ar y gofrestr a'r nifer amcanestynedig ar gyfer Ysgol Uwchradd Glyn Derw a Choleg Cymunedol Llanfihangel**

| Ysgol | Ionawr 2011 | Ionawr 2012 | Ionawr 2013 | Ionawr 2014 | Amcanestyniad 2014/2015 | Amcanestyniad 2015/2016 | Amcanestyniad 2016/2017 | Amcanestyniad 2017/2018 | Amcanestyniad 2018/2019 | Amcanestyniad 2019/2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Glyn Derw (Blynyddoedd 7-11) | 609 | 550 | 501 | 429 | 416 | 407 | 417 | 424 | 430 | 432 |
| Ysgol Uwchradd Glyn Derw (Chweched Dosbarth) | 14 | 24 | 41 | 3 | 40 | 34 | 27 | 24 | 25 | 27 |
| **Galw – Glyn Derw** | 623 | 574 | 542 | 432 | 456 | 441 | 444 | 448 | 455 | 459 |
| Coleg Cymunedol Llanfihangel (Blynyddoedd 7-11) | 580 | 565 | 544 | 503 | 508 | 485 | 502 | 540 | 563 | 589 |
| Coleg Cymunedol Llanfihangel (Chweched dosbarth | 147 | 138 | 179 | 236 | 125 | 123 | 114 | 93 | 91 | 103 |
| ac addysg oedolion)* | | | | | | | | | | |
| **Galw - Llanfihangel** | 727 | 703 | 723 | 739 | 633 | 608 | 616 | 633 | 654 | 692 |
| | | | | | | | | | | |
| Galw cyfunol (Blynyddoedd 7-11) | 1189 | 1115 | 1045 | 932 | 924 | 892 | 919 | 964 | 993 | 1021 |
| Galw cyfunol (Chweched dosbarth ac addysg oedolion) | 161 | 162 | 93 | 239 | 165 | 157 | 141 | 117 | 116 | 130 |
| **Cyfanswm Cyfunol** | 1350 | 1277 | 1137 | 1171 | 1089 | 1049 | 1060 | 1081 | 1109 | 1151 |

* Mae data Nifer ar y Gofrestr Llanfihangel hefyd yn cynnwys oedolion sydd wedi'u cofrestru ar gyrsiau.

I grynhoi, pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai angen 1049 o leoedd ar safle Coleg Cymunedol Llanfihangel ar gyfer 2016 Ionawr gydag amcangyfrif o 11 o leoedd ychwanegol ar gyfer derbyniadau 2016 Medi.

## Beth fyddai'r effaith ar ysgolion?

Yr ysgolion yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y cynnig hwn yw Ysgol Uwchradd Glyn Derw a Choleg Cymunedol Llanfihangel. Effeithir ar Ysgol Uwchradd Glyn Derw drwy ei throsglwyddo i safle Coleg Cymunedol Llanfihangel.

Effeithir ar Goleg Cymunedol Llanfihangel oherwydd bydd yn rhaid addasu'r safle i wneud lle ar gyfer disgyblion a staff Ysgol Uwchradd Glyn Derw. Fodd bynnag, mae'r ysgolion wedi bod yn rhan o Ffederasiwn Glyn Derw Llanfihangel ers 2011 ac wedi bod yn cydweithio yn ystod y cyfnod hwn, felly mae perthnasau gwaith da eisoes wedi'u sefydlu rhwng yr ysgolion a ddylai hwyluso newid. Disgwylir y bydd y cynnig yn arwain at fanteision amrywiol fel y nodir yn y ddogfen hon ar dudalen 14.

## Beth fyddai'r effaith ar ysgolion?

Drwy drosglwyddo Ysgol Uwchradd Glyn Derw i safle Llanfihangel, ceir lleihad yng nghyfanswm nifer y lleoedd sydd ar gael i'r ddwy ysgol. Disgwylir i hyn wneud i'r galw am leoedd yn yr ysgolion hyn yn y dyfodol gyfateb yn agosach.

Ni ddisgwylir i'r lleihad mewn capasiti orfodi disgyblion i symud i ysgolion eraill, nac ychwaith arwain at gynnydd cyffredinol yn nifer y disgyblion a gaiff eu derbyn.

Rhagwelir na chaiff y cynnig lawer o effaith, os o gwbl, ar nifer y disgyblion ar y gofrestr mewn ysgolion eraill yn yr ardal leol.

Er nad oes darpariaeth uwchradd yn seiliedig ar ffydd yn Nhreláí a Chaerau ar hyn o bryd, mae rhai disgyblion o'r ardal hon yn mynychu ysgolion ffydd mewn ardaloedd eraill, gan gynnwys Ysgol Uwchradd Gatholig Mair Ddihalog yng Ngwenfô ac Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf yn Llandaf.

Corff Llywodraethu'r ysgol unigol fydd yn penderfynu ar drefniadau derbyn yr ysgolion hyn. Mae Blwyddyn 7 Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf wedi bod yn llawn ers blynyddoedd, ac mae nifer y lleoedd sy'n cael eu defnyddio ym Mair Ddihalog wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Disgwylir i'r galw am leoedd yn yr ysgolion hyn barhau ar lefelau tebyg yn y dyfodol, ac ni ddisgwylir i'r cynnig hwn effeithio ar hyn.

Mae Tabl 3 isod yn dangos nifer y disgyblion ar gofrestr ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ac ysgolion mewn ardaloedd cyfagos, a nifer y disgyblion a ragwelir ar y gofrestr pe bai'r cynnig a ddisgrifiwyd yn mynd rhagddo.

Tabl 3: Niferoedd diweddar ac amcanestynedig ar y gofrestr mewn ysgolion uwchradd lleol pe bai'r cynnig a ddisgrifiwyd yn mynd rhagddo

| Ysgol | A fydd y cynigion yn effeithio ar yr ysgol hon? | Ionawr 2009 | Ionawr 2010 | Ionawr 2011 | Ionawr 2012 | Ionawr 2013 | Ionawr 2014 | Amcanestyniad 2014/2015 | Amcanestyniad 2015/2016 | Amcanestyniad 2016/2017 | Amcanestyniad 2017/2018 | Amcanestyniad 2018/2019 | Amcanestyniad 2019/2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Coleg Cymunedol Llanfihangel | Byddant | 675 | 704 | 727 | 703 | 723 | 739 | 633 | 608 | 616 | 633 | 654 | 692 |
| Ysgol Uwchradd Glyn Derw | Byddant | 642 | 644 | 623 | 574 | 542 | 432 | 456 | 441 | 444 | 448 | 455 | 459 |
| Ysgol Uwchradd Gatholig Mair Ddihalog | Na fyddant | 545 | 554 | 541 | 526 | 579 | 621 | 638 | 670 | 700 | 688 | 697 | 738 |
| Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf | Na fyddant | 1218 | 1232 | 1235 | 1230 | 1222 | 1179 | 1229 | 1239 | 1246 | 1252 | 1257 | 1263 |

Mae'r data ar gyfer pob un o'r ysgolion uchod yn cynrychioli'r amcanestyniadau pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt. Maent hefyd yn dangos yr amcanestyniadau pe na bai unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud. Gallai'r disgyblion hynny nad ydynt yn gallu cael lle mewn ysgolion gan fod mwy o geisiadau na lleoedd ddewis mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, Ffydd, neu breifat eraill, neu ysgolion y tu allan i Gaerdydd ac, er eglurder, ni chânt eu hychwanegu at y Nifer ar y Gofrestr mewn ysgolion amgen.

Effeithir ar Ganolfan Blant Treláí a Chaerau gan y nifer cynyddol o fyfyrwyr a fydd yn defnyddio darpariaeth ar safle Coleg Cymunedol Llanfihangel. Hefyd, bydd angen ystyried y cynnydd yn y cyfleusterau ar y safle.

Byddai dalgylchoedd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn aros yr un peth. Mae meini prawf derbyn wedi'u cynnwys ym Mholisi Derbyn y Cyngor.

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Ffagan yn agos at yr ysgol, felly mae'n bosibl y bydd mwy o dagfeydd ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol.

Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chyrff Llywodraethu'r ysgolion i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

## Beth fyddai'r effaith ar wasanaethau eraill?

Dan y cynnig hwn byddai cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n defnyddio'r safle. Mae Canolfan Blant Treláí a Chaerau ar yr un safle â Choleg Cymunedol Llanfihangel, ond mae ar wahân i'r ysgol. Mae'n debyg y bydd mwy o draffig ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol gan y bydd mwy o fyfyrwyr yn defnyddio'r safle.

Mae Canolfan Blant Treláí a Chaerau yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau i blant a theuluoedd: Gofal dydd, Addysg Blynyddoedd Cynnar, clybiau Y Tu Allan i Ysgol – clwb brecwast, clwb ar ôl ysgol, clwb gwyliau ac ystafell gymunedol.

Ymgynghorir â Chanolfan Blant Treláí a Chaerau fel rhan o'r broses ymgynghori.

Nid oes unrhyw effeithiau wedi'u nodi ar wasanaethau Ysgol Uwchradd Glyn Derw mewn perthynas â'r cynnig.

## Beth fyddai'r effaith ar ddarpariaeth AAA?

Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai effaith negyddol ar ddarpariaeth AAA yn yr ysgolion yn sgîl y cynnig.

Nid oes gan Ysgol Uwchradd Glyn Derw na Choleg Cymunedol Llanfihangel ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgolion, ond mae canran y disgyblion y mae angen darpariaeth AAA arnynt yn uwch na chyfartaledd yr ALl a Chymru yn y ddwy ysgol felly mae angen i'r ysgol gefnogi AAA fel y dangosir yn y tabl isod.

Tabl 4

| 2013 | | Ysgol Uwchradd Glyn Derw | Coleg Cymunedol Llanfihangel | ALl | Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y disgyblion AAA | Gweithredu | 18.6 % | 25.6 % | 15.1 % | 14.6 % |
| | Gan yr Ysgol Gweithredu | 13.3 % | 19.9 % | 7.9 % | 8.1 % |
| | Gan yr Ysgol a Mwy Disgybl â datganiad | 2.6 % | 3.4 % | 2.9 % | 2.6 % |

* Ceir rhagor o wybodaeth ar y wefan: fyysgolleol.cymru.gov.uk.

Cynigir cymorth Emostiynol ac Ymddygiadol mewnol i fyfyrwyr, ac mae asiantaethau arbenigol yn gweithio gyda'r ysgol i gefnogi disgyblion. Mae tua 20-30 o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 10 ac 11 sy'n cael eu cefnogi drwy ddarpariaeth arbenigol oddi ar y safle ar sail flynyddol. Mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei hadolygu ar wahân i'r cynnig hwn, ond bydd yn parhau oddi ar y safle.

Mae gan yr ysgolion fyfyrwyr sy'n defnyddio Uned Cyfeirio Disgyblion Bryn y Deryn, ac ni fydd unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth hon dan y cynnig hwn. Ar hyn o bryd, mae 8 disgybl o'r ddwy ysgol yn defnyddio'r ddarpariaeth i gefnogi eu Cynlluniau Addysg Unigol (CAU).

## Ansawdd a Safonau

Estyn a'r Awdurdod Lleol (ALl) sy'n monitro ansawdd a safonau ysgolion Caerdydd.

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Un o gyrff y Goron ydyw, a sefydlwyd dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond caiff gyllid gan Lywodraeth Cymru dan Is-adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau addysg a darparwyr hyfforddiant Cymru.

Ers sefydlu Consortiwm Canol De Cymru (CCDC) ym mis Medi 2012 mae'r ALl wedi comisiynu'r Consortiwm i gefnogi a galluogi gwelliannau yn ysgolion Caerdydd. Byddai unrhyw ysgolion newydd yn cael budd o'r gwasanaethau hyn i ddarparu addysg a chyfleoedd dysgu o ansawdd.

### Estyn

Mae adroddiadau Arolwg Estyn ar ôl Medi 2010 yn rhoi beirniadaethau yn erbyn Cwestiynau Allweddol ac yn rhoi argymhellion ar gyfer gwella i ysgolion.

Rhoddir beirniadaeth wrth bob Cwestiwn Allweddol:
Rhagorol – Llawer o gryfderau, gan gynnwys nifer o enghreifftiau o arfer arweiniol yn y sector
Da – Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol – Mwy o gryfderau na meysydd sydd angen eu gwella
Anfoddhaol – Mwy o feysydd pwysig angen eu gwella na chryfderau

Bydd Estyn fel arfer yn arolygu ysgol newydd pan fo o leiaf un set o ddata asesu neu arolygu diwedd cyfnod allweddol ar gael.

Mae'r adran hon o'r ddogfen yn cynnwys gwybodaeth o arolygon mwyaf diweddar Estyn ar gyfer Ysgol Uwchradd Glyn Derw a Choleg Cymunedol Llanfihangel. Gellir gweld y crynodebau a'r adroddiadau trwy wefan Estyn yn **www.estyn.gov.uk**.

### Yr Awdurdod Lleol a Chonsortiwm Canol De Cymru

Mae gwybodaeth yn gysylltiedig ag ansawdd a safonau ysgolion Caerdydd yn Adroddiad y Cabinet: Perfformiad Ysgolion Caerdydd a'r Gwasanaeth Ieuenctid yn 2013/14 a gafodd ei ystyried gan Gabinet y Cyngor ar 26 Ionawr 2015.
Ers Medi 2012, mae Gwasanaethau Gwella Ysgolion y Cyngor wedi'u darparu gan Gonsortiwm Canol De Cymru, Gwasanaethau Gwella Ysgolion rhanbarthol ar gyfer y pum awdurdod lleol sef Pen-y-bont, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Caiff pob ysgol ei chategoreiddio i mewn i bedwar categori (A-D) a adolygir bob blwyddyn:

A: Ysgol sy'n perfformio'n rhagorol gyda nifer o enghreifftiau o arfer da ac arfer arweiniol yn y sector o bosibl – dim angen cymorth ychwanegol
B: Ysgol sy'n perfformio'n dda gyda rhai meysydd sydd angen eu gwella – gallai fod angen rhywfaint o gymorth allanol
C: Ysgol sy'n perfformio'n amrywiol mewn amryw ddangosyddion neu dros amser, angen gwella mewn nifer o feysydd pwysig – mae angen cymorth ychwanegol yn gyson
D: Ysgol sy'n tanberfformio gyda nifer o wendidau mewn amryw feysydd – mae angen llawer o gymorth ychwanegol

Mae'r tabl isod yn dangos beirniadaethau ac argymhellion Estyn, a data categori Consortiwm Canol De Cymru:

| Tabl 5 | | |
|---|---|---|
| **Issue** | **Ysgol Uwchradd Glyn Derw - Adroddiad Estyn Tachwedd 2011** | **Coleg Cymunedol Llanfihangel - Adroddiad Estyn Tachwedd 2011** |
| **Cwestiynau Allweddol** | **Beirniadaeth** | **Beirniadaeth** |
| **Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r canlyniadau?** | **Anfoddhaol** | **Digonol** |
| Safonau | Anfoddhaol | Digonol |
| Lles | Digonol | Digonol |
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** | **Digonol** |
| Profiadau dysgu | Digonol | Digonol |
| Addysgu | Digonol | Digonol |
| Gofal, cymorth a chyfarwyddyd | Digonol | Da |
| Yr amgylchedd dysgu | Anfoddhaol | Da |
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** | **Digonol** |
| Arweinyddiaeth | Digonol | Da |
| Gwella ansawdd | Digonol | Digonol |
| Gweithio mewn partneriaeth | Digonol | Da |
| Rheoli Adnoddau | Anfoddhaol | Digonol |
| **Argymhellion** | | |
| A1 | Codi safonau ym mhob pwnc yng Nghyfnod Allweddol 4 a chyrhaeddiad bechgyn a disgyblion mwy galluog yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4; | Codi safonau yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4, gan sicrhau cysondeb gwell rhwng perfformiad pynciau; |
| A2 | Gwella presenoldeb; | Gwella presenoldeb; |
| A3 | Cryfhau darpariaeth i ddatblygu sgiliau disgyblion, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd; | Cryfhau darpariaeth i ddatblygu sgiliau disgyblion, yn enwedig llythrennedd a sgiliau rhifedd uwch; |
| A4 | Gwella ansawdd yr addysgu a chanolbwyntio'n benodol ar wella'r cynnydd a wna disgyblion yn ystod gwersi; | Gwella ansawdd yr addysgu a chanolbwyntio'n benodol ar herio disgyblion a gallu uwch yn y grŵp; |
| A5 | Datblygu rôl y corff llywodraethu fel ei fod yn diwallu'r holl ofynion statudol; | Gwella safonau mewn Cymraeg ail iaith a sicrhau bod pob disgybl yn gweithio tuag at gymhwyster cydnabyddedig sy'n cyd-fynd â'i allu. |
| A6 | Cryfhau rôl a llais y cyngor ysgol ac ethol disgybl-lywodraethwyr cysylltiol. | |
| **Categori Consortiwm Canol De Cymru 2013/2014** | D | D |
| % y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 2 gan gynnwys Saesneg/ Cymraeg a Mathemateg | 27.34 % | 25.42 % |
| % y disgyblion sy'n cyflawni CSI | 23.44 % | 22.03 % |
| Presenoldeb yn 2012-13 | 91.83 % | 88.53 % |

* gellir gael rhagor o wybodaeth ar y wefan: fyysgolleol.cymru.gov.uk.

Mae Tabl 6 yn dangos canran y disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol Am Ddim, disgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol a disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig yn yr ysgolion yr effeithir arnynt:

| Tabl 6 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2013 | Ysgol Uwchradd Glyn Derw | Coleg Cymunedol Llanfihangel | ALI | Cymru |
| Canran y disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol Am Ddim - cyfartaledd 3 blynedd | 38 % | 43 % | 20.1 % | 17.5 % |
| Canran y disgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol | 3.5 % | 3.2 % | 9.6 % | 2.6 % |
| Canran y disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig | 9.8 % | 13.9 % | 26.2 % | 7.9 % |

* gellir cael rhagor o wybodaeth ar y wefan: fyysgolleol.cymru.gov.uk.

Nid oes gan yr ALl unrhyw wybodaeth i awgrymu yr effeithir yn negyddol ar Ansawdd a Safonau ysgolion presennol gan y cynigion. Fodd bynnag, drwy rannu adnoddau yn fwy effeithiol rhagwelir y bydd safonau'n codi ac y bydd llai o ddyblygu ar draws dau safle.

## Beth yw manteision addysgol y cynigion hyn?

Byddai'r manteision canlynol yn:

1. Symleiddio polisïau a strwythurau ymhellach;
2. Rhannu arfer da ac yn paratoi deunyddiau ac adnoddau;
3. Gwella cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff;
4. Gwella ysbryd staff/lleihau absenoldeb staff;
5. Gwella cyfleoedd cymdeithasol i ddisgyblion;
6. Gwneud y gorau o adnoddau ac arbenigedd proffesiynol;
7. Cefnogi effeithlonrwydd drwy gynnig arbedion maint ar gyfer cyflawni gweithgareddau allweddol;
8. Hyrwyddo lles ehangach disgyblion drwy gynnig y posibiliad o ddod â gwasanaethau bugeiliol ac eraill ynghyd i ddiwallu eu hanghenion cyffredinol;
9. Cefnogi gwelliant ysgol;
10. Gwella cyfleoedd o ran gweithgareddau disgyblion a darparu cwricwlwm eang a chytbwys;
11. Gwneud y gorau o fentrau Cenedlaethol;
12. Meithrin cynnydd naturiol o'r ysgol i ddarpariaeth ôl-16;
13. Cefnogi addysgu a dysgu mwy effeithiol.

Mae Llywodraeth Cymru a'r Cyngor wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a fynegir mewn saith nod craidd sy'n nodi bod plant a phobl ifanc:

1. yn cael dechrau teg mewn bywyd;
2. yn cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu;
3. yn mwynhau'r iechyd gorau posibl heb ddioddef o gamdriniaeth, erledigaeth nac ecsbloetiaeth;
4. yn gallu manteisio ar weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol;
5. yn cael eu clywed a'u trin â pharch, a bod pobl yn cydnabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol;
6. yn byw mewn cartref a chymuned ddiogel sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol;
7. yn rhydd o anfanteision tlodi.

Rydym o'r farn y bydd y plant yn y gymuned yn elwa'r o'r cynnig hwn yn unol â'r saith nod craidd a nodir uchod.

## Anfanteision posibl y cynigion hyn

Mae posibiliad y bydd mwy o draffig a thagfeydd o amgylch safle Coleg Cymunedol Llanfihangel ar ddechrau/diwedd y diwrnod ysgol. Fodd bynnag, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu'r ysgol i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

Gallai'r newidiadau i adeiladau presennol Coleg Cymunedol Llanfihangel achosi rhywfaint o darfu ond, o'n profiadau yn y gorffennol gwyddwn y gellir lleihau'r tarfu hwn a sicrhau nad yw addysg y disgybl yn dioddef.

Byddai'r cynnig yn arwain at siwrneiau hirach i rai disgyblion yn enwedig y rheini sy'n byw ar ymyl dwyreiniol dalgylch Ysgol Glyn Derw.

Gallai fod cynnydd o ran plant uwchradd yn yr ardal ac efallai na fydd safle Coleg Cymunedol Llanfihangel yn gallu diwallu'r galw am leoedd.

Bydd y capasiti cyffredinol o ran lleoedd ysgol yn ardal Treláі a Chaerau yn lleihau.

## Risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynigion hyn

Mae posibiliad o gyfyngiadau datblygu sydd heb eu nodi eto a allai olygu goblygiadau o ran costau ac oedi. Caiff cyllid wrth gefn ei neilltuo ar gyfer pob cynnig i leihau risgiau o ran costau.

Efallai na chaiff y prosesau statudol angenrheidiol eu cwblhau mewn pryd ar gyfer y cynnig (yn amodol ar gymeradwyaeth) i'w roi ar waith ar gyfer Ionawr 2016. Byddai peidio â gwneud unrhyw newidiadau y tu hwnt i'r dyddiad hwn yn golygu nifer o anfanteision o ran canlyniadau i ddisgyblion a byddai mwy o gostau pe na bai'r broses yn cael ei chwblhau erbyn Ionawr 2016. Bydd profiad y Cyngor o ran rheoli cynigion trefniadaeth ysgolion yn lleihau'r risg hon cymaint â phosibl.

Gwrthwynebiad i'r cynnig gan y rhieni/disgyblion sy'n mynychu'r ddwy ysgol ar hyn o bryd. Bydd gwaith cynllunio gofalus i sicrhau proses ymgynghori ac ymgysylltu effeithiol yn lleihau problemau posibl a'r risg sy'n codi o hyn.

Heriau o ran sicrhau diogelwch safle gwag Ysgol Uwchradd Glyn Derw.
Defnyddir profiad y Cyngor o ddiogelu safleoedd gwag i leihau'r risg.

# Yr opsiynau amgen a ystyriwyd

**Dim newidiadau i adeiladau neu ddalgylchoedd ysgolion**

| Problem | Manteision posibl | Anfanteision posibl |
|---|---|---|
| Argaeledd lleoedd ysgol | • Mae digon o leoedd i ddisgyblion yn yr ardal. | • Nid yw'r ysgolion yn diwallu eu capasiti ac mae'r nifer ar y gofrestr wedi bod yn gostwng.<br>• Mae gostyngiad o ran cyllid oherwydd y gostyngiad yn nifer y disgyblion. |
| Safonau ysgol | • Mae safonau yn cael eu rhannu ar draws dau safle gyda holl ddisgyblion Blwyddyn 10 o'r ddau safle yn astudio ar safle Coleg Cymunedol Llanfihangel.<br>• Mae'r Ffederasiwn wedi bod yn rhoi menter Her Cymru ar waith ers 2014. Fel rhan o'r rhaglen mae'r ysgolion wedi bod yn derbyn adnoddau ac arbenigedd ychwanegol i gyflawni rhaglen o welliant cyflym a pharhaus. | • Mae Ysgol Uwchradd Glyn Derw a Choleg Cymunedol Llanfihangel wedi cael sgôr categori D (o gategorïau A-D - D yw'r isaf) gan Gonsortiwm Canol De Cymru sy'n monitro safonau.<br>• Mae'r ddwy ysgol wedi mynd i ddiffyg cyllidebol sylweddol sy'n effeithio ar yr adnoddau i godi safonau. |
| Pellter i'r ysgol / Traffig a thrafnidiaeth | • Mae mwyafrif y disgyblion o'r ardal leol ac nid oes ganddynt anghenion trafnidiaeth. | |
| Costau cyfalaf (e.e. adeiladu) | | • Mae cyflwr ac addasrwydd Ysgol Uwchradd Glyn Derw wedi cael sgôr categori C, sy'n wael:<br>1. Cyflwr - dangos diffygion sylweddol a/neu ddim yn gweithredu yn ôl y bwriad;<br>2. Addasrwydd: dulliau addysgu wedi'u cyfyngu / effaith negyddol ar drefniadaeth ysgolion. |
| Costau refeniw (e.e. staffio) | | • Ni ddefnyddir adnoddau i'w llawn botensial gan fod yr ysgolion ar safleoedd gwahanol. |

# Yr opsiynau amgen a ystyriwyd

**Symud y ddwy ysgol i safle Coleg Cymunedol Llanfihangel - gan barhau fel ysgolion Ffederal.**

| Problem | Manteision posibl | Anfanteision posibl |
|---|---|---|
| Argaeledd lleoedd ysgol | • Manteisio i'r eithaf ar gapasiti safle Coleg Cymunedol Llanfihangel.<br>• Byddai'r rhagolygon o ran nifer y disgyblion yn galluogi'r ddwy ysgol i fod ar un safle, yn unol ag addasiadau mewnol i gynyddu capasiti'r adeiladau. | • Bydd y capasiti cyffredinol o ran lleoedd ysgol yn ardal Trelái a Chaerau yn lleihau.<br>• Gallai fod cynnydd o ran plant uwchradd yn yr ardal a gallai'r llety presennol yn safle Coleg Cymunedol Llanfihangel fod yn rhy fach i ateb y galw. |
| Safonau ysgol | • Gallai'r ddwy ysgol rannu adnoddau ar yr un safle.<br>• Mae'r Ffederasiwn wedi bod yn rhoi menter Her Cymru ar waith ers 2014. Fel rhan o'r rhaglen mae'r ysgolion wedi bod yn derbyn adnoddau ac arbenigedd ychwanegol i gyflawni rhaglen o welliant cyflym a pharhaus.<br>• Gwneud y gorau o werth cyllid ychwanegol drwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion a menter Her Cymru. | • Gallai fod mwy o alw am yr adnoddau a rennir. |
| Pellter i'r ysgol / Traffig a thrafnidiaeth | | • Gallai'r tagfeydd ar Michaelston Road gynyddu.<br>• Gallai fod angen i ddisgyblion deithio yn bellach i fynd i'w hysgol leol. |
| Costau cyfalaf (e.e. adeiladu) | • Arbedion ar gostau adeiladu.<br>• Mae cyflwr ac addasrwydd safle Coleg Cymunedol Llanfihangel wedi'i sgorio fel categori B (da):<br>1. Cyflwr - yn perfformio yn ôl y bwriad ond yn dangos dirywiad bach;<br>2. Addasrwydd - yn perfformio yn ôl y bwriad, ond nid yw'n ategu'r gwaith o ddarparu'r cwriwcwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd. | |
| Costau refeniw (e.e. staffio) | • Byddai'r costau staffio yn cael eu rhannu rhwng y ddwy ysgol a gellid eu dosbarthu'n fwy effeithiol ar un safle. | |

# Yr opsiynau amgen a ystyriwyd

**Symud y ddwy ysgol i safle Ysgol Uwchradd Glyn Derw - parhau fel ysgolion Ffederal**

| Problem | Manteision posibl | Anfanteision posibl |
|---|---|---|
| Argaeledd lleoedd ysgol | • Manteisio i'r eithaf ar gapasiti safle Ysgol Uwchradd Glyn Derw.<br>• Gallai'r rhagolygon o ran nifer y disgyblion alluogi'r ddwy ysgol i fod ar un safle, yn amodol ar waith adeiladu i gynyddu capasiti'r adeiladau. | • Bydd y capasiti cyffredinol o ran lleoedd ysgol yn ardal Treláі a Chaerau yn lleihau.<br>• Gallai fod cynnydd o ran plant uwchradd yn yr ardal a gallai safle Ysgol Uwchradd Glyn Derw fod yn rhy fach i ateb y galw. |
| Safonau ysgol | • Gallai'r ddwy ysgol rannu adnoddau ar yr un safle.<br>• Mae'r Ffederasiwn wedi bod yn rhoi menter Her Cymru ar waith ers 2014. Fel rhan o'r rhaglen mae'r ysgolion wedi bod yn derbyn adnoddau ac arbenigedd ychwanegol i gyflawni rhaglen o welliant cyflym a pharhaus. Gellir defnyddio'r fenter hon yn fwy effeithiol ar un safle.<br>• Gwneud y gorau o werth cyllid ychwanegol drwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion a menter Her Cymru. | • Gallai fod mwy o alw am yr adnoddau a rennir. |
| Pellter i'r ysgol / Traffig a thrafnidiaeth | | • Gallai fod angen i ddisgyblion deithio yn bellach i fynd i'w hysgol leol. |
| Costau cyfalaf (e.e. adeiladu) | • Arbedion ar gostau adeiladu. | • Mae cyflwr ac addasrwydd Ysgol Uwchradd Glyn Derw wedi cael sgôr categori C, sy'n wael:<br>1. Cyflwr - dangos diffygion sylweddol a/neu ddim yn gweithredu yn ôl y bwriad;<br>2. Addasrwydd: dulliau addysgu wedi'u cyfyngu / effaith negyddol ar drefniadaeth ysgolion. |
| Costau refeniw (e.e. staffio) | • Byddai'r costau staffio yn cael eu rhannu rhwng y ddwy ysgol a gellid eu dosbarthu'n fwy effeithiol ar un safle. | |

## Trefniadau derbyn a dalgylchoedd

Nid oes unrhyw gynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i ysgolion o ganlyniad i'r cynigion hyn.

Mae gwybodaeth fanwl am drefniadau derbyn yn llyfryn Derbyn i Ysgolion y Cyngor a gellir gweld y wybodaeth hon hefyd ar wefan y Cyngor (www.caerdydd.gov.uk).

Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i ddalgylchoedd yr ysgolion fel rhan o'r cynnig hwn.

## Materion Ariannol

Cafodd cynigion ar gyfer addasiadau mewn perthynas ag Ysgol Uwchradd Glyn Derw a Coleg Cymunedol Llanfihangel eu cynnwys yng nghynnig Cyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ac a gafodd ei gymeradwyo mewn egwyddor ym mis Rhagfyr 2011.

I gael y grant llawn mae angen cyflwyno Achos Busnes llwyddiannus i Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â chynllun penodol. Bydd angen i'r Cyngor reoli disgwyliadau sy'n codi yn ystod yr ymgynghoriad yn briodol hyd nes y ceir cymeradwyaeth o'r grant llawn.

Nid yw'r gwaith addasu adeiladau sy'n angenrheidiol ar safle Coleg Cymunedol Llanfihangel er mwyn derbyn disgyblion Ysgol Uwchradd Glyn Derw wedi'i fesur / brisio'n llawn eto, fodd bynnag ystyrir bod darpariaeth Model Ariannol Cyfunol y Cynllun Trefniadaeth Ysgolion o tua £7.5 miliwn (sy'n cynnwys contract adeiladu, chwyddiant a chynlluniau wrth gefn) yn ddigonol ar gyfer y gwaith hwn, a'r gwaith o ddymchwel adeilad Ysgol Uwchradd Glyn Derw.

Pe bai'r cynnig hwn yn gallu parhau, caiff penderfyniadau yn gysylltiedig â'r defnydd gorau o safle Ysgol Uwchradd Glyn Derw fel ased cyngor eu hystyried gan gynnwys y defnydd mwyaf priodol ar gyfer y safle.

Fel y nodir yn yr adroddiad hwn, mae pob ysgol yn wynebu nifer o heriau o ran cyllideb ar hyn o bryd. Rhagwelir, trwy weithredu ar un safle, gyda chostau safle is, y gellir gwneud mwy o arbedion refeniw (staffio) ar gyfer un o'r ysgolion neu'r ddwy, ac ar gyfer yr Awdurdod yn gyffredinol.

## Materion Adnoddau Dynol

Mae'r Ffederasiwn hwn wedi datblygu strwythur staffio sydd wedi'i alinio'n well i fodel a rennir ar gyfer gweithio ar draws y ddwy ysgol.  Gellir datblygu'r model hwn ymhellach i adlewyrchu trefniadau gweithio o un safle, yn arbennig i ystyried ail-alinio staff y safle a staff cymorth yr ysgol.  Darperir cyngor a chanllaw yn unol â pholisïau a gweithdrefnau sefydledig a bydd angen ymgynghori â staff ac undebau llafur.

## Materion Trafnidiaeth

Caiff goblygiadau traffig a thrafnidiaeth eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth a fyddai'n ofynnol er mwyn cael caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith adeiladu pe bai'r cynigion yn cael eu rhoi ar waith.

## Trefniadau Teithio Dysgwyr

Dan y cynnig hwn nid oes unrhyw gynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar drafnidiaeth plant i'r ysgol ac oddi yno. Mae'r holl ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Uwchradd Glyn Derw yn byw o fewn tair milltir o safle Coleg Cymunedol Llanfihangel. Efallai bod nifer fechan o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Uwchradd Glyn Derw o'r tu allan i'r dalgylch yn byw mwy na thair milltir o safle Coleg Cymunedol Llanfihangel, a byddai angen ystyried pa gymorth fyddai ar gael i'r disgyblion hyn. Mae unrhyw drefniadau sydd ar waith yn yr ysgol yn parhau i fod yn fater i'r ysgol. Gellir gweld polisi trafnidiaeth y Cyngor i blant ysgol ar wefan y Cyngor (www.caerdydd.gov.uk).

## Effaith y cynnig ar yr iaith Gymraeg

Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg o ganlyniad i'r cynigion hyn.

Nid yw'r cynnig yn ceisio newid nifer y lleoedd uwchradd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn yr ardal.

Mae swyddogion yn monitro cyfraddau geni, y datblygiadau tai arfaethedig a'r patrymau o ran pwy sy'n dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg cynradd ac uwchradd gyda'r posibiliad o gyflwyno cynlluniau priodol i ddiwallu unrhyw gynnydd mewn galw.

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cychwynnol wedi'i gyflawni ac wedi dod i'r casgliad na fyddai'r cynigion hyn yn cael effaith negyddol ar grŵp penodol yn y gymdeithas. Caiff yr asesiad hwn ei adolygu yn dilyn ymgynghoriad. Pe bai'r cynnig yn parhau, caiff asesiadau pellach o'r effaith ar gydraddoldeb eu cyflawni gan gynnwys asesiad ar y dyluniad ar gyfer unrhyw waith addasu yng Ngholeg Cymunedol Llanfihangel.

## Materion Cynaliadwyedd

Mae Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) o'r cynnig wedi'i gyflawni yn unol â Deddfwriaeth Ewropeaidd. Mae'r asesiad yn cadarnhau bod y cynnig yn cyd-fynd â'r amcanion amgylcheddol a nodir yn yr AAS o Gaerdydd yr 21ain Ganrif: Fframwaith Strategol ar gyfer Rhaglen Gwella Adeiladau Ysgol. Pe bai'r cynigion yn cael eu rhoi ar waith, byddai asesiad amgylcheddol yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses gynllunio.

## Materion Cynaliadwyedd

Nid oes unrhyw gyfleusterau cymunedol ar safle Ysgol Uwchradd Glyn Derw. Hefyd, nid yw'r safle'n cael ei ddefnyddio gan unrhyw grwpiau cymunedol y tu allan i oriau ysgol.

Bydd Canolfan Blant Trelái a Chaerau yn parhau ar safle Coleg Cymunedol Llanfihangel.

Caiff y canlynol eu hystyried wrth ystyried cynnig: Man Agored Cyhoeddus, parcdir, sŵn a thagfeydd. Bydd swyddogion yn gweithio gyda'r ysgolion ac unrhyw grwpiau cymunedol i sicrhau y byddai effeithiau negyddol yn cael eu hosgoi lle bynnag y bo'n bosibl pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith.

# Dyddiadau Allweddol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Caiff yr adborth o'r ymgynghoriad hwn ei gasglu a'i grynhoi, a chaiff adroddiad ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor. Bydd yr adroddiad hwn ar yr ymgynghoriad ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor a gellir cael copïau ar gais drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y ddogfen hon.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ac yn penderfynu p'un a ddylid parhau â'r cynnig ai peidio, gwneud newidiadau i'r cynnig neu beidio â pharhau â'r cynnig.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu parhau â'r cynnig, caiff Hysbysiad Statudol ei gyhoeddi gyda chyfnod rhybudd o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn nodi bod gan unrhyw un sydd eisiau cyflwyno gwrthwynebiad i gynnig trefnidiaeth ysgolion yr hawl i wneud hynny. Er mwyn cael eu hystyried fel gwrthwynebiadau statudol, rhaid cyflwyno gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig neu dros e-bost, a'u hanfon i'r Cyngor cyn pen 28 diwrnod o'r dyddiad y cafodd y cynnig ei gyhoeddi.

Byddai Cabinet y Cyngor yn ystyried canlyniad yr Hysbysiad Statudol yng nghyfarfod nesaf y Cabinet ac yn penderfynu p'un a ddylid rhoi'r cynnig ar waith ai peidio.

Os oes gwrthwynebiadau, byddai'r Cyngor yn cyhoeddi adroddiad gwrthwynebu yn rhoi crynodeb o'r gwrthwynebiadau ac ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau hynny cyn pen 7 diwrnod o'r dyddiad y penderfynir ar y cynnig. Byddai'r adroddiad hwn ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor a gellir cael copïau ar gais drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y ddogfen hon.

Os bydd Cabinet y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig, y dyddiad gweithredu arfaethedig yw **Ionawr 2016**.

**Beth yw'r dyddiadau allweddol a gynigir ar gyfer yr ymgynghoriad hwn a'r broses yn gyffredinol?**

Cyfnod ymgynghori 12 Chwefror 2015 i 25 Mawrth 2015.

- Bydd swyddogion yn cyflwyno adroddiad i Gabinet Cyngor Dinas Caerdydd ar ganlyniadau'r ymgynghoriad.
- Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn gwneud penderfyniad o ran p'un a ddydlid parhau â Hysbysiad Statudol ai peidio.
- Os bydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu parhau â'r cynnig, caiff Hysbysiad Statudol ei gyhoeddi a fydd yn rhoi 28 diwrnod i gyflwyno unrhyw wrthwynebiadau.
- Os derbynnir unrhyw wrthwynebiadau bydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu p'un a ddylid cymeradwyo'r cynnig ai peidio.

# Cwestiynau Cyffredin

- **Beth fyddai'r cynigion yn ei olygu i blant sy'n mynychu ysgolion yr ardal leol ar hyn o bryd?**
  Byddai plant sy'n mynychu'r ysgolion hyn ar hyn o bryd yn parhau ar y gofrestr yn yr ysgolion, ond byddai'r disgyblion ar gofrestr Glyn Derw yn cael eu haddysgu ar safle Coleg Cymunedol Llanfihangel.

- **Beth fyddai'r dalgylchoedd lleol pe bai'r cynnig hwn yn mynd ymlaen?**
  Ni fyddai unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud i ddalgylchoedd y ddwy ysgol o ganlyniad i'r cynnig hwn.

- **Fyddai'r cynnig yn cael effaith ar drefniadau teithio?**
  Caiff goblygiadau traffig a thrafnidiaeth eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth a fyddai'n ofynnol i gael caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith adeiladu pe bai'r cynnig hwn yn cael ei roi ar waith.

- **Fyddai'r cynnig yn cael effaith ar newidiadau staff?**
  Mae'r Ffederasiwn wedi datblygu strwythur staffio sydd wedi'i alinio i fodel a rennir ar gyfer gweithio ar draws y ddwy ysgol.

- **Fyddai'r cynnig yn cael effaith ar y Corff Llywodraethu?**
  Dan y Ffederasiwn mae eisoes un corff llywodraethu ar gyfer Ysgol Uwchradd Glyn Derw a Coleg Cymunedol Llanfihangel: Ffederasiwn Glyn Derw Llanfihangel.

- **Fyddai'r cynnig yn effeithio ar Ganolfan Blant Trelái a Chaerau?**
  Nid oes unrhyw newidiadau wedi'u cynnig ar gyfer Canolfan Blant Trelái a Chaerau o ganlyniad i'r cynnig hwn.

- **Beth fyddai'r wisg ysgol?**
  Cyfrifoldeb y Rheolwyr a Chorff Llywodraeth Ffederal y ddwy ysgol yw'r gwisgoedd ysgol.

# FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD (Darpariaeth Ysgol Uwchradd Yng Ngorllewin Caerdydd 2015)

Mae eich safbwyntiau'n bwysig. Rhowch eich barn i ni ar y cynnig drwy:

Gwblhau a dychwelyd yr holiadur i'r cyfeiriad ar waelod y ffurflen.

Cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein yn **www.caerdydd.gov.uk/YsgolionYr21ainGanrif**

Neu gallwch e-bostio eich safbwyntiau i **ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk**

**Cofiwch fod rhaid i'r holl sylwadau a anfonir yn ysgrifenedig neu dros e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad post llawn y person sy'n gwneud y sylwadau.**

**Y dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad hwn yw 25 Mawrth 2015. Yn anffodus ni all y Cyngor ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.**

**Ni** ystyrir ymatebion i'r ymgynghoriad yn wrthwynebiadau i'r cynigion. Dim ond ar ôl cyhoeddi **hysbysiad statudol** y gellid cofrestru gwrthwynebiadau.

Gellir gwneud cais am unrhyw ymatebion a dderbynnir dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac efallai y bydd rhaid eu gwneud yn gyhoeddus, fodd bynnag byddai unrhyw wybodaeth bersonol fel enw, cyfeiriad e-bost a chyfeiriad post yn cael ei dileu.

Eich enw: ....................

Cyfeiriad: ....................

....................

Cod post: ....................

Cyfeiriad e-bost: ....................

Dyddiad: ....................

Rhowch wybod a ydych yn ymateb fel:

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Rhiant | ☐ |
| 2. | Disgybl | ☐ |
| 3. | Llywodraethwr | ☐ |
| 4. | Aelod o Staff | ☐ |
| 5. | Preswylydd lleol | ☐ |
| 6. | Arall (nodwch) | ☐ |

....................

# FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD (Darpariaeth Ysgol Uwchradd Yng Ngorllewin Caerdydd 2015)

**Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i drosglwyddo Ysgol Uwchradd Glyn Derw i safle Coleg Cymunedol Llanfihangel o Ionawr 2016?**

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os nad ydych yn cefnogi'r cynnig, rhowch eich rhesymau ynghyd ag unrhyw newidiadau neu opsiynau amgen yr hoffech eu hawgrymu.

Hoffech chi wneud unrhyw sylwadau eraill?

Diolch am eich sylwadau

Ticiwch y blwch isod os hoffech gael gwybod pan fydd yr adroddiad ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ☐

Dychwelwch y ffurflen hon i'r Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 219, Neuadd y Sir, CF10 4UW erbyn **25 Mawrth 2015**.